GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

Cyswllt: Amanda Williams
Llysoedd Barn Aberhonddu
01874 615033

www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Datganiad Newyddion

Datganiad Newyddion

01/06

4ydd Ebrill 2006

STAFF LLYS LLEOL
YN ENNILL GWOBR RAGORIAETH GENEDLAETHOL

Cydnabuwyd gwaith eithriadol staff Ardal Dyfed Powys yn seremoni Gwobrau Cenedlaethol gyntaf Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn Birmingham, ddydd Mawrth 28 Mawrth 2006.

Enillodd Rhian Davies Rees, Pennaeth Gweithrediadau a Pherfformiad; Ann Beaumont, Rheolwr Cyswllt Barnwrol; Amanda Williams, Rheolwr Cyfathrebu a Gwasanaeth Cwsmeriaid yr Ardal, Nichola Gilman, Swyddog Perfformiad yr Ardal, y wobr tîm am gynnal deialog â'r gymuned.

Trefnwyd a rhedwyd cyfres o ddiwrnodau agored llwyddiannus gan y tîm mewn amrywiol lysoedd ledled Dyfed Powys, yn ystod Wythnos Cipolwg ar Gyfiawnder ym mis Hydref 2005 . Rhaid diolch i lu o bobl eraill a chwaraeodd ran allweddol yn llwyddiant y diwrnodau hynny, megis y staff gweinyddol, ymgynghorwyr cyfreithiol ac ynadon. Diolch hefyd i'r Swyddog Cyfathrebu yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol niferus eraill a gyfrannodd. Roedd yr ymateb yn eithriadol o gadarnhaol, sy'n awgrymu bod y cyhoedd wedi cael y digwyddiadau yn rhai buddiol a defnyddiol, a'u bod wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r ffordd y mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio.

Dywedodd Luigi Strinati, Cyfarwyddwr yr Ardal:
"Rwyf wrth fy modd bod y tîm wedi ennill y wobr hon, a charwn longyfarch a diolch i'r holl staff a'r rhanddeiliaid a gyfrannodd ar bob diwrnod agored. Roedd hi'n

ymddangos fod pawb a ddaeth i'r digwyddiadau, boed hwy'n aelodau cyffredin o'r cyhoedd, yn ddefnyddwyr llys rheolaidd, neu'n blant ysgol, â diddordeb gwirioneddol yn yr hyn oedd ar gael iddynt ei weld a gwrando arno. Dim ond da all ddod o hyn, wrth i ni symud ymlaen gyda GLlEM, ac mae'n anfon neges glir at bawb ein bod yn sefydliad blaengar sy'n edrych tua'r dyfodol, sy'n ymroddedig i wella ein gwasanaethau ac sydd â diddordeb ym marn ac anghenion ein cymuned leol."

Dywedodd Syr Ron de Witt, Prif Weithredwr GLlEM:
"Mae'n bleser gen i wobrwyo gwaith caled y tîm. Mae'r anrhydedd hwn yn nodi pen-blwydd cyntaf GLlEM. Mae pob ymweliad a delais â llysoedd wedi creu argraff wirioneddol a pharhaus arnaf fod popeth a wnawn er budd y cyhoedd - y dioddefwr, y tyst, y rheithiwr, y diffynnydd a'r pleintydd - nhw sy'n dod gyntaf. Adeiladu'r gwasanaeth o amgylch eu hanghenion yw'r hyn sy'n ein diffinio, a'r hyn sy'n sefydlu ein henw da."

SYLWER

Ar Ebrill 1af 2005, daeth Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi â 42 o bwyllgorau llysoedd ynadon annibynnol a'r Gwasanaeth Llys ynghyd i greu un sefydliad unedig am y tro cyntaf. Mae'n asiantaeth weithredol o'r Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC). Ei bwrpas yw cyflwyno cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd. Mae'n gyfrifol am reoli'r llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr.